Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diweddar, rydyn ni wedi gweld gwahaniaethau cynyddol rhwng yr hyn sy'n cael ei ofyn o Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ac yng Nghymru ac mae gwahaniaethau polisi'n cynyddu. Er enghraifft, yn Lloegr, mae yna bwyslais cynyddol ar gael gwared ar reoliadau i ysgafnhau'r baich ar fusnesau a diwydiant. Yng Nghymru, mae yna fwy o bwyslais ar weithio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i wella canlyniadau amgylcheddol. Fe ddylen ni newid i adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn. Bydd un corff amgylcheddol sengl yng Nghymru'n sicrhau fod y canolbwynt yn gyfan gwbl ar flaenoriaethau Cymru ac fe fydden ni'n disgwyl i'r corff newydd ddarparu:

- Canlyniadau gwell ar gyfer amgylchedd, pobl ac economi Cymru, drwy gael un corff ag agwedd gyfun at ddatrys problemau a chanfod atebion gyda'r mwyaf o fanteision;
- Cynyddu effeithlonrwydd drwy leihau gorbenion corfforaethol a chynhyrchu arbedion drwy reoli ar y cyd ystadau, caffael ac



offer. Bydd hyn yn rhyddhau arian i'w ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

Rydyn ni o'r farn fod yr achos busnes ar gyfer y corff amgylcheddol sengl yn dangos y bydd buddion hyn yn fwy na'r costau. Rydym ni'n cydnabod y cafodd y costau a'r buddion eu hasesu'n geidwadol a bod yr achos busnes wedi'i archwilio'n allanol, a bod hynny'n cadarnhau ei fod wedi'i baratoi'n unol â chanllawiau'r Trysorlys. Ymhellach, byddai gwahanu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru oddi wrth y corff rhiant yn rhyddhau £20 miliwn yn ychwanegol i'w fuddsoddi yng Nghymru, gan sicrhau y bydd gan y corff newydd y galluoedd a'r gwasanaethau priodol ar gyfer rheoli'r amgylchedd yng Nghymru.

Rydym ni'n cefnogi egwyddorion y Fframwaith Amgylchedd Naturiol a bydd y corff amgylcheddol sengl newydd yn un o'r prif sefydliadau a fydd yn gyfrifol am ei wireddu. Er y gwnaed cynnydd da ar y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, rydym ni'n annog rhagor o waith i drosi'r cysyniadau damcaniaethol yn ddulliau ymarferol. Dyna pam ein bod yn croesawu'r cynlluniau peilot arfaethedig. Bydd defnyddio cysyniadau'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol ar gyfer problemau lleol penodol yn ein helpu i ddeall y ffyrdd newydd o weithio.

## **2 Gweledigaeth a swyddogaeth y corff newydd**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y corff newydd yn seiliedig ar y gred mai conglfaen popeth y byddwn yn ei wneud yw datblygu cynaliadwy. Bydd creu sefydliad amgylcheddol newydd yng Nghymru yn gyfle unigryw i ddarparu ymhellach ar gyfer pobl ac economi Cymru yn ogystal â'r amgylchedd. Felly, mae'n rhaid i hyn fod yn fwy na dim ond dod â thri sefydliad presennol ynghyd. Bydd yn rhaid i'r sefydliad newydd gael gweledigaeth glir o'i swyddogaeth ac o'i gylch gwaith a bydd yn rhaid i bob rhan o'r gymuned allu deall y weledigaeth hon yn hawdd. Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn meddwl fod llawer o bobl yn deall yn iawn pa welliannau y gallai'r corff sengl eu darparu.

Mae'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol yn annog agwedd newydd at reoli ein hamgylchedd er mwyn sicrhau fod ecosystemau'n cael eu gwarchod ac yn cael eu rheoli yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn sicrhau y gellir llwyddo i gael yr amrywiaeth lawn o fuddion neu wasanaethau ecosystemau a thrwy hynny gyfrannu at ffyniant economaidd a chymdeithasol. Bydd yn rhaid i'r corff newydd sicrhau gwelliannau amgylcheddol a fydd o fantais i gymunedau lleol yn ogystal ag i'r economi. Byddai safbwynt ehangach o'r fath yn golygu "ennill-ennill-ennill" i amgylchedd, pobl ac economi Cymru.

Rydym ni o'r farn fod yna chwe her allweddol yn wynebu'r sefydliad newydd:

- Rheoli defnydd tir yn gynaliadwy;

- Arweinyddiaeth strategol i ddatrys problemau amgylcheddol cymhleth;
- Hyrwyddo twf a datblygiad economaidd;
- Buddsoddi gwyrdd a swyddi gwyrdd;
- Gwella rheoleiddio;
- Newid hinsawdd.

### **2.1 Rheoli defnydd tir yn gynaliadwy**

Efallai mai sicrhau fod tir a dŵr yn cael ei reoli'n gyfun ac yn gynaliadwy yw'r her amgylcheddol fwyaf tyngedfennol i Gymru. Yn ogystal â gwneud synnwyr yn economaidd, mae defnyddio a rheoli tir yn effeithio'n arw ar fioamrywiaeth yn ogystal ag yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd gwasgaredig yn afonydd a nentydd Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan bob un o'r tri sefydliad gyfrifoldebau allweddol o ran rheoli tir, rhoi cyngor ac arweiniad i reolwyr tir a hefyd reoleiddio rhai gweithgareddau. Rydyn ni o'r farn bod yna gyfle i lyfnhau'r gwasanaethau hyn, drwy weithio gyda'r trydydd sector, i gael gwasanaeth mwy cyfun ac effeithiol. Bydd hyn yn helpu i gyfarfod â'r anghenion a ddiffinnir yn y Cyfarwyddebau Fframwaith Dŵr, Cynefinoedd ac Adar, Dyfroedd Ymdrochi a Dyfroedd Pysgod Cregyn. Bydd yna fanteision hefyd o ran rheoli peryglon llifogydd a chadw carbon.

**2.2 Arweinyddiaeth strategol i ddatrys problemau amgylcheddol cymhleth,** Mae ein profiad o ddelio â phroblemau amgylcheddol cymhleth mewn mannau megis Cilfach Tywyn a Chastell-nedd Port Talbot wedi dangos mor anodd a chymaint o amser sy'n cael ei lyncu wrth ddatblygu atebion cyfun, cost effeithiol i broblemau o'r fath. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn annog sefydliadau i ganolbwyntio ar eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau penodol. Does yna ddim cymhelliad i unrhyw un sefydliad gymryd swyddogaeth arweiniol strategol i gydlynu pawb sydd â rhan, i chwilio am ddealltwriaeth gyffredin o'r problemau a sut y gellir eu datrys. Mae sefydlu corff amgylcheddol sengl yn gyfle i wneud iawn am y diffyg hwn drwy gynnwys yn ei gylch gwaith y cyfrifoldeb o gydlynu swyddogaethau drwy ddod â sectorau cyhoeddus a phreifat ac o'r trydydd sector at ei gilydd i ddatrys problemau amgylcheddol cymhleth. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddatrys problemau penodol ac i fod o fantais ehangach i'r economi a chymunedau lleol.

Ar hyn o bryd, does yna'r un corff sengl yng Nghymru yn ystyried cynllunio amgylcheddol tymor hir ar gyfer pob agwedd o'r amgylchedd yng Nghymru. Rydyn ni o'r farn y bydd gan y corff newydd ran i'w chwarae mewn darparu tystiolaeth gadarn o'r pwysau amgylcheddol presennol, am ragweld y pwysau yn y dyfodol yng Nghymru a'r ystod o waith y gellid ei wneud i'w rheoli. Bydd cael tystiolaeth gadarn, asesu canlyniadau amgylcheddol penderfyniadau a'r problemau

amgylcheddol sy'n codi yn galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gymryd gwell penderfyniadau.

### **2.3 Hyrwyddo twf a datblygiad economaidd**

Bydd datblygu economaidd a'r newid yn y ffordd y mae pobl yn bwy yn rhoi rhagor o bwysau ar ecosystemau. Rydyn ni'n croesawu bwriad Llywodraeth Cymru yn y rhaglen adnewyddu economaidd, Cyfeiriad Newydd 2010, i baratoi cynllun seilwaith statudol ar gyfer Cymru. Rydyn ni o'r farn bod angen rhoi llawer mwy o bwyslais ar gael y datblygiadau mwyaf addas yn y lle iawn, nid er budd yr amgylchedd yn unig, ond o ran yr economi a'r bobl hefyd. Byddai hyn yn sicrhau y byddai datblygiadau newydd yn gallu gwrthsefyll heriau megis newid hinsawdd, demograffeg gyfnewidiol a phrinder adnoddau. Byddai hefyd yn ei gwneud yn haws i fusnes a diwydiant, drwy leihau costau ac amser cael caniatâd amgylcheddol a thrwy gyfeirio datblygiadau i fannau lle mae'r amgylchedd yn llai sensitif. Bydd gan y corff amgylcheddol newydd ran fawr i'w chwarae mewn darparu gwybodaeth, data a thystiolaeth amgylcheddol i ddeall gallu naturiol yr amgylchedd ac i sicrhau y bydd hynny'n cael ei gynnwys wrth ddatblygu cynlluniau seilwaith. Rydyn ni o'r farn y bydd yn rhaid i'r sefydliad newydd sefydlu cysylltiadau cryf gydag awdurdodau lleol, drwy ddarparu gwell tystiolaeth ar gyfer eu penderfyniadau. Bydd hyn o help i awdurdodau lleol ac i'r corff newydd gael canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd positif.

### **2.4 Buddsoddi gwyrdd a swyddi gwyrdd**

Mae ansawdd amgylchedd Cymru eisoes yn chwarae rhan bwysig mewn cynnal diwydiant twristiaeth bywiog yng Nghymru. Yn 2007, roedd yr astudiaeth 'Economi Bywyd Gwylt Cymru' yn amcangyfrif bod gweithgareddau bywyd gwylt Cymru yn cyfrannu tua £1.936 miliwn y flwyddyn ac yn cynnal mwy na 30,000 o swyddi. Bydd yn rhaid i'r corff amgylcheddol newydd adeiladu ar hyn a hyrwyddo creu swyddi, nid yn unig mewn twristiaeth a choedwigaeth ond hefyd yn y diwydiannau gwyrdd sy'n ymddangos, megis ynni adenwyddol. Mae posibilrwydd y diwydiannau newydd hyn yn cael ei ddangos mewn astudiaeth gan Brifysgol Leeds sy'n dangos y gallai buddsoddi mewn mentrau arbed ynni syml greu tua mil o swyddi'r flwyddyn yn rhanbarth dinas Leeds.

### **2.5 Gwella rheoleiddio**

Mae hyn yn gyfle gwych i lyfnhau caniatáu amgylcheddol. Bydd cael un sefydliad ynddo'i hunan yn symleiddio'r broses i'n cwsmeriaid ar unwaith, bydd yn siop un stop ar gyfer pob trwydded, cyngor ac arweiniad ar faterion amgylcheddol. Gallai hyn ei gwneud yn rhatach ac yn gynt i'n cwsmeriaid gael eu trwyddedau

O ran gweithgareddau cymhleth a pheryglus, mae'n gyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill i lyfnhau'r broses o ystyried trwyddedau amgylcheddol a cheisiadau

cynllunio drwy ystyried y ddau fater ar wahân ond yr un pryd. Byddai hyn o fantais i fusnes ac i ddiwydiant, drwy roi cyngor ac arweiniad cyson a phrydlon a byddai'n lleihau'r baich rheolaethol. Byddai'r newid hwn hefyd yn galluogi cymunedau lleol i gael gwell gwybodaeth ynghylch yr effeithiau y gallai datblygiadau penodol eu cael ar eu cymuned ac ar yr amgylchedd.

## **2.6 Newid hinsawdd.**

Bydd addasu i ganlyniadau anorfod newid hinsawdd drwy'r ganrif nesaf yn gofyn am ffyrdd gwreiddiol ac arloesol o gynllunio a rheoli. Mae'r her yn un fawr iawn. Er enghraifft, yn 2009 / 10, buddsoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol Cymru £44 miliwn mewn adeiladu a chynnal amddiffynfeydd llifogydd. O gymryd y rhagamcanion canol o ragamcanion mwyaf diweddar newid hinsawdd y DU, bydd gofyn i'r ffigwr hwn dreblu erbyn 2035 i gynnal yr un lefel o amddiffyniad. Ac, yn wahanol iawn, erbyn y 2050au, rhagwelir y bydd llif naturiol afonydd yn gostwng o 20% - 60% ledled Cymru a'r her fydd llwyddo i ddygymod â chyfnodau amlach o sychder.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru eisoes yn ystyried newid hinsawdd drwy gynghori ar gynllunio gofodol, rheoli peryglon llifogydd a chynnal diogeled y cyflenwad dŵr cyhoeddus. Bydd yn rhaid i'r sefydliad newydd adeiladu ar y gwaith hwn, yn ogystal ag ar y gwaith a ddatblygwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i gryfhau gwytnwch cynefinoedd a rhywogaethau yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd ac yn y cylch dŵr. Bydd yn rhaid i'r sefydliad newydd hefyd gyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwyrdr o 2011-12 ymlaen, yn wir, dylai hyn fod yn esiampl i'r sector cyhoeddus cyfan. Bydd yn rhaid i'w weithgareddau rheoleiddio sicrhau y cyrhaeddir targedau gostwng carbon Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd a Lefi Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Gostwng Carbon a hynny heb beryglu cynnyrch economaidd.

## **3. Risgiau posibl a lliniaru risgiau**

Rydyn ni'n cydnabod bod yna risgiau y bydd yn rhaid eu rheoli'n ofalus yn y cyfnod cyn, ac ar ôl, sefydlu'r corff newydd. Fodd bynnag, rydyn ni'n hyderus y gellir eu lliniaru.

### **3.1 Dim digon o adnoddau i ddarparu'n effeithiol ar gyfer yr amgylchedd:**

- Rydyn ni'n cydnabod y gallai fod yna ostyngiad mewn perfformiad yn y cyfnod cyn ac ar ôl ad-drefnu. Ein blaenoriaeth fydd sicrhau ein bod yn cynnal y gweithgareddau busnes sy'n hanfodol i amddiffyn yr amgylchedd, pobl a'r economi, er enghraifft, rhybuddion llifogydd, rheoli digwyddiadau, rheoleiddio'r rheng flaen a chyflwyno trwyddedau. Rydyn ni'n cydnabod y bydd hyn yn her wrth i ragor o staff symud i weithio

ar Gorff Amgylcheddol Sengl Llywodraeth Cymru ac ar y Fframwaith Amgylchedd Naturiol. Rydyn ni o'r farn y gallwn ni reoli hyn drwy flaenoriaethau a chyfeirio ein hadnoddau at y gweithgareddau hanfodol. Fodd bynnag, rydyn ni angen i Lywodraeth Cymru lyfnhau'r mewnbwn sydd ei angen i raglenni'r Corff Amgylcheddol Sengl a'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol a chanolbwyntio ar weithgareddau hanfodol yn unig. Byddwn yn monitro'n ofalus sut y byddwn ni'n darparu ein gweithgareddau hanfodol, drwy adborth cwsmeriaid, i sicrhau nad yw safonau gwasanaeth yn llithro. Yn ôl y gofyn, byddwn yn ychwanegu adnoddau i sicrhau y cyrhaeddir safonau. Yn olaf, ac os yn addas, byddwn yn gofyn am gefnogaeth ychwanegol gan y corff rhiant.

- Ar hyn o bryd mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn derbyn nifer o wasanaethau gan eu cyrff rhiant. Bydd yn rhaid i'r Corff Amgylcheddol Sengl ddangos yn glir pa wasanaethau y bydd eu hangen a nodi'r trefniadau gorau ar gyfer eu sicrhau yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau y bydd y Corff Amgylcheddol Sengl yn weithredol o'r diwrnod cyntaf un.

### **3.2 Canlyniadau anfwriadol dros y ffin**

- Rydyn ni'n cydnabod y gallai trefniadau rheoleiddio Cymru fod yn wahanol i rai Lloegr wrth i bolisiâu a blaenoriaethau'r ddwy Lywodraeth ddal i symud ymhellach oddi wrth ei gilydd. Mae yna risg y gallai hynny arwain at amodau anghystadieuol i fusnesau o ganlyniad i ychwanegu at y baich rheolaethol. Gallai fod yna ansicrwydd hefyd i'r rhai yn byw ac yn gweithio yn ardaloedd y ffin. Rydyn ni o'r farn y gellir lliniaru hyn drwy sefydlu perthynas waith gadarn gyda chyrff amgylcheddol y llywodraethau datganoledig ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr i sicrhau fod pob gwahaniaeth, rheolaethol ac o ran polisi, yn cael eu harchwilio a bod eu heffeithiau'n cael eu deall a'u lliniaru.
- Bydd yn rhaid sefydlu trefniadau cyfreithiol clir yn y dalgylchoedd ac aberoedd sy'n croesi ffin Cymru a Lloegr er mwyn dal i sicrhau fod yr amgylchedd yn cael ei rheoli'n llwyddiannus. Bydd yn rhaid cynnal y berthynas waith gref sydd eisoes wedi'i sefydlu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

### **3.3 Cymryd penderfyniadau'n dryloyw**

- Mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft, wrth drwyddedu gweithgareddau ac asesu eu heffaith amgylcheddol, bydd gofyn i'r corff newydd ysgwyddo swyddogaethau rheolaethol ac ymgynghorol. Bydd yn rhaid i'r corff newydd sefydlu'r lefelau priodol o lywodraethu a thryloywder yn ei ddulliau o benderfynu i dalu sylw i bryderon y gallai gwrthdaro godi rhwng y ddwy

swyddogaeth. Dyw hyn ddim yn her newydd. Pan gafodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei sefydlu, codwyd pryderon tebyg ynghylch effeithiau ansawdd dŵr a physgodfeydd wrth drwyddedu gosodiadau diwydiannol, Cafodd hyn ei liniaru drwy drefniadau ymgynghori gyda swyddogaethau allweddol yn y busnes ac yn allanol, a thrwy sicrhau fod y dogfennau priodol ynghylch penderfynu ac asesu ar gael i'r cyhoedd. Hefyd, bydd y ffaith y bydd yn dal gan y cyhoedd ran yn y broses benderfynu yn sicrhau y byddwn yn dal i dalu sylw i bryderon lleol yn ein swyddogaeth reolaethol. Bydd yna ran yn dal i Lywodraeth Cymru i scrwtineiddio'r corff newydd o ran penderfyniadau rheolaethol ac o ran prosesau ar gyfer heriau cyfreithiol.

18 Ionawr 2012

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Iau, 12 Ionawr 2012**

---

Amser: **09:15 – 11:45**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_700000\\_12\\_01\\_2012&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_12_01_2012&t=0&l=cy)

---

### Cofnodion Cryno:

---

#### Aelodau'r Cynulliad:

**Mick Antoniw  
Rebecca Evans  
Russell George  
Vaughan Gething (Cadeirydd)  
Llyr Huws Gruffydd  
Julie James  
William Powell  
David Rees  
Antoinette Sandbach**

---

#### Tystion:

**John Day, Prif Ddeisebwr, P-04-024 Dywedwch Na i  
TAN 8 – Mae ffermydd gwynt a llinellau pŵer foltedd  
uchel yn difetha ein cymuned  
Huw Morgan, Sir Drefaldwyn yn erbyn Peilonau  
John Morgan, Cymdeithas Mynyddoedd Cambria  
Peter Ogden, Cyfarwyddwr yr Ymgyrch Diogelu Cymru  
Wledig  
Neville Thomas CF, Cyngrhair Swydd Amwythig a  
Chanolbarth Cymru**

---

#### Staff y Pwyllgor:

**Alun Davidson (Clerc)  
Naomi Stocks (Clerc)  
Catherine Hunt (Dirprwy Clerc)  
Graham Winter (Ymchwilydd)  
Nia Seaton (Ymchwilydd)**

---

### 1. Ethol Cadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 17.22

1.1 Etholodd y Pwyllgor Vaughan Gething fel Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn a'r cyfarfod yn y prynhawn.

## **2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo.

## **3. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth ar TAN 8**

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor am y polisi ynni a chynllunio yng Nghymru.

## **4. Papurau i'w nodi**

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2011, y llythyron a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol a gafwyd i'r ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru.

## **5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6.

## **6. Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – adroddiad drafft y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyron drafft gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin i Lywodraeth Cymru a chytuno i'r rapporteur ar gyfer Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau.

## **7. Ymchwiliad i'r achos busnes ar gyfer yr un corff amgylcheddol – cytuno ar y cylch gorchwyl a phenodi cynghorwyr arbenigol**

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad i'r achos busnes ar gyfer yr un corff amgylcheddol.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i benodi yr Athro Terry Marsden a'r Athro Robert Lee fel cynghorwyr arbenigol i gynorthwyo â'r ymchwiliad. Wrth wneud hynny, nododd Antoinette Sandbach y byddai'n well ganddi petai'r Pwyllgor yn gallu dewis o ystod ehangach o ymgeiswyr.

## **TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgriafiad o'r cyfarfod](#).



# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

---

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

---

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Ionawr 2012

---

Amser: 13:00 – 15:05

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_400004\\_12\\_01\\_2012&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400004_12_01_2012&t=0&l=cy)

---

## Cofnodion Cryno:

---

Aelodau'r Cynulliad:

**Mick Antoniw**  
**Rebecca Evans**  
**Russell George**  
**Vaughan Gething (Cadeirydd)**  
**Llyr Huws Gruffydd**  
**Julie James**  
**William Powell**  
**David Rees**  
**Antoinette Sandbach**

---

Tystion:

**Jonathan Cawley, West Coast Energy**  
**Morag Ellis CF**  
**Simon Power, Arup**  
**Mike Webb, RSPB Cymru**

---

Staff y Pwyllgor:

**Alun Davidson (Clerc)**  
**Catherine Hunt (Dirprwy Clerc)**

---

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo.

## 2. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – trafodaeth o amgylch y bwrdd ar TAN 8

2.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch polisi ynni a chynllunio yng Nghymru.

### TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgriafiad o'r cyfarfod](#).

**South Wales Electricity Transmission Network  
Briefing Note for National Assembly Wales Environment and Sustainability  
Committee Inquiry into Energy Policy and Planning – January 2012**

**Existing Electricity Transmission Network**

1. The South Wales electricity transmission system is currently connected to the rest of the UK by three main transmission line routes - the Pembroke/Rassau to Walham 400kV double circuit, the Cilfynydd/Imperial Park to Melksham 400kV double circuit and the Whitson to Iron Acton 275kV double circuit. Each of those contains potentially limiting factors in the Ross Cables, Severn Cables and the 275kV high crossing of the River Severn respectively.

**Existing Generation & Demand in South Wales**

2. Currently (2011/12), there is just under 5GW of contracted generation connected within the South Wales region. This comprises generation at Pembroke (1.3GW), Severn Power (0.85GW), Aberthaw (1.6GW), Barry (0.25GW), Baglan Bay (0.55GW) and Uskmouth (0.36GW).
3. Approximately 2GW of the ~5GW generated is consumed within South Wales meeting current demand. As such around 3GW is currently exported out of South Wales into England via the three transmission routes referred to above.

**Contracted & Anticipated Connections & Demand in South Wales**

4. In future years, whilst the demand in South Wales is forecast to be fairly consistent, the total amount of generation which may be connected, based on the contracted<sup>1</sup> position, could move closer to 7GW by 2020/21. The potential increase comprises Pembroke (0.7GW), Rhigos (0.3GW), Port Talbot (0.3GW) and Abernedd (0.47GW). If all this generation were to proceed and existing generation remains connected, an export transfer requirement across the South Wales system boundary could be approaching 5GW. This can be accommodated with current planned cable replacement reinforcements at the Severn Crossing.

**Further Network Proposals**

5. Furthermore, there are plans to construct a new 2GW HVDC link between Wylfa in North Wales and Pembroke in South Wales, via an undersea cable off the west coast of Wales. The main drivers for the Wylfa-Pembroke 2GW HVDC link are:
  - a. The development of new wind generation in the Irish Sea Round 3 Zone.
  - b. The commissioning of a new nuclear power station at Wylfa.
  - c. The requirement for increased boundary capability across the network.
6. An integrated offshore transmission network is currently under consideration and this offers significant benefits in reducing the need for onshore system reinforcements. Under an integrated network solution a HVDC subsea cable

---

<sup>1</sup> The contracted background consists of generation projects which have signed agreements between the generators and National Grid. The background includes all of the generation for which National Grid is obliged to progress works to connect until such a time as the contracted position for an individual customer changes, either by modifying the date or by terminating the agreement altogether.

connection could connect Pembroke in South Wales to an offshore platform in the Irish Sea wind farm development with conventional AC cable connections from the offshore platform to Wylfa in North Wales.

### **Network Power Carrying Capabilities**

7. System analysis studies have been conducted for the South Wales region taking account of the contracted background and the need to plan and operate the network to meet certain Security and Quality and Supply Standards under different fault condition scenarios.
8. For winter peak demand scenarios, the existing network, with planned cable replacement reinforcements at the Severn Crossing can, as noted above, accommodate ~5GW transfers. In a scenario where demand levels in the South Wales region are reduced to 50% of their winter peak values (.i.e. typical summer demand values) the boundary export transfer requirements are increased to around 6GW. Under these conditions, some limitations may be experienced but these can be managed operationally. The development of the planned 2GW Wylfa-Pembroke HVDC link should improve operational flexibility by providing the ability to control the power flow on the link to achieve best operational practice in parallel with the AC network. For example, power flows on the link could be reduced to zero, or under certain conditions, reversed, effectively increasing South Wales boundary capability.
9. It should be noted that the contracted background assumptions upon which this analysis is based may be subject to future change and the chance acknowledged that more or less generation (.i.e. through new openings or delayed closures) could be seen in South Wales going forward. Furthermore, there are some uncertainties currently associated with the specific controls required on a 2GW HVDC link being technically feasible at the necessary time.

4 January 2012